# Bwyd y gallwch ymddiried ynddo












Asiantaeth Safonau Bwyd
food.gov.uk

# Cynnwys


3 Gair am yr Asiantaeth Safonau Bwyd

4 Cenhadaeth a gweledigaeth

6 Ein gwaith

11 Ein pobl

12 Ein dull o weithio

13 Y cyd-destun rydym yn gweithio ynddo

14 Ein cyfrifoldebau ar draws Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon

16 Partneriaethau

17 Yr ASB: Diogelu eich plât ers 2000


Asiantaeth Safonau Bwyd
food.gov.uk

# Gair am yr Asiantaeth Safonau Bwyd

**Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yn adran anweinidogol annibynnol, a sefydlwyd yn 2000 yn dilyn nifer o achosion proffil uchel o salwch a gludir gan fwyd fel BSE (clefyd gwartheg gwallgof).**

Mae ein hamcanion, ein pwerau a'n dyletswyddau wedi'u nodi'n bennaf yn Neddf Safonau Bwyd 1999. Rydym yn gweithio ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Ein prif amcanion yn ôl y gyfraith yw diogelu iechyd y cyhoedd rhag risgiau sy'n deillio o fwyta bwyd, ac i ddiogelu buddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd.


Rydym yn diogelu'r cyhoedd trwy sicrhau bod bwyd yn ddiogel ac yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label, a thrwy chwarae ein rhan i helpu i wneud bwyd yn iachach ac yn fwy cynaliadwy i bawb. Rydym yn gweithio ar draws y system fwyd i gynnal safonau uchel ac i'w gwneud yn haws i fusnesau wneud y peth iawn. Mae ein gwaith yn helpu i sicrhau y gall y cyhoedd, a phartneriaid masnachu rhyngwladol, fod â hyder ym mwyd y Deyrnas Unedig (DU). Mae ein rôl yn cynnwys darparu cyngor polisi i weinidogion, monitro datblygiadau mewn gwyddoniaeth a thechnoleg a chomisiynu ymchwil, gan sicrhau bod ein penderfyniadau a'n cyngor bob tro yn seiliedig ar y wyddoniaeth orau a mwyaf cyfoes. Rydym ni hefyd yn darparu gwybodaeth a chyngor i wneuthurwyr polisi eraill ac i'r cyhoedd yn gyffredinol mewn perthynas â materion o fewn ein hamcanion statudol. Mae gennym swyddogaethau tebyg mewn perthynas â bwyd anifeiliaid.

Mae ein pwerau statudol yn cynnwys y pŵer i gyhoeddi canllawiau ar reoli clefydau a gludir gan fwyd, a'r pŵer i gasglu a chyhoeddi gwybodaeth am y system fwyd i gefnogi ein hamcanion, ac i gyhoeddi ein cyngor ein hunain. Mae gennym hefyd bwerau penodol fel rheoleiddiwr, i orfodi rheolaethau bwyd yn uniongyrchol gyda rhai busnesau ac i oruchwylio'r gwaith gorfodi a wneir gan awdurdodau lleol, a ddisgrifir yn yr adran isod ar ein cyfrifoldebau ar draws y tair gwlad. Ers i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd (UE), rydym hefyd yn asesu pob cais a ddaw i law i awdurdodi bwyd, bwyd anifeiliaid neu ddeunydd a ddaw i gysylltiad â bwyd newydd sydd i'w werthu yng Nghymru a Lloegr, ac yn cynghori gweinidogion iechyd ar awdurdodiadau.

Cawn ein llywodraethu gan Fwrdd[1] annibynnol, yn hytrach na gweinidogion. Caiff ein Cadeirydd ac aelodau eraill eu penodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Gogledd Iwerddon. Rydym yn gweithio'n agos gyda Safonau Bwyd yr Alban (FSS), sef y corff cyhoeddus cyfatebol yn yr Alban.[2]

Cytunir ar ein gwaith yng nghyfarfodydd agored y Bwrdd, ac mae'r gwaith hwn bob amser wedi'i ategu gan y wyddoniaeth a'r dystiolaeth ddiweddaraf. Mae tryloywder yn egwyddor arweiniol i'r ASB.

Mae Llywodraeth Cymru, Llywodraeth EF a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn cyfrannu at ein cyllideb, sef tua £140 miliwn[3] yn ystod y blynyddoedd diwethaf.





[1] www.food.gov.uk/cy/amdanom-ni/cyfarfodydd-bwrdd-yr-asb
[2] Yn 2015, gwnaeth Deddf Bwyd (yr Alban) drosglwyddo cyfrifoldebau'r ASB yn yr Alban i FSS.
[3] www.food.gov.uk/cy/amdanom-ni/adroddiadau-a-chyfrifon

# Cenhadaeth a gweledigaeth

Ein cenhadaeth yw **‘bwyd y gallwch ymddiried ynddo’**, a’n gweledigaeth ar gyfer y system fwyd yw sicrhau bod bwyd:

- yn ddiogel
- yn cyd-fynd â’r hyn sydd ar y label
- yn iachach ac yn fwy cynaliadwy





## Mae bwyd yn ddiogel

Mae bwyd yn hanfodol i bawb, bob dydd. Mae gan bob un ohonom yr hawl i ddisgwyl na fydd y bwyd rydym yn ei fwyta yn ein gwneud yn sâl. Dyna pam yr ydym yn blaenoriaethu cadw lefel clefydau a gludir gan fwyd yn isel. Rydym yn gwneud hyn mewn sawl ffordd. Mae hyn yn cynnwys gosod y rheoliadau diogelwch bwyd, monitro'r system arolygu diogelwch bwyd, ein gwaith arolygu uniongyrchol, yn ogystal â'n gwaith gwyliadwriaeth a rhaglenni i atal clefydau a gludir gan fwyd. Rydym hefyd yn ymateb i ddigwyddiadau bwyd, gan gymryd camau i ddiogelu defnyddwyr pan fydd pryderon ynghylch diogelwch neu ansawdd bwyd a bwyd anifeiliaid – gan gynnwys ansawdd microbiolegol a halogiad bwyd gan ficro-organebau neu ddeunydd estron; alergenau; cyfansoddiad; halogiad cemegol; difwyno a labelu bwyd. Er mwyn cyflawni'r rhan hon o'n gweledigaeth, bydd angen i ni arloesi, esblygu ac ymateb i newidiadau ar draws y system fwyd.

## Mae bwyd yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label

Dylai defnyddwyr fod yn hyderus bod bwyd yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label. Dyna pam y byddwn yn sicrhau bod bwyd yn ddilys ac wedi'i ddisgrifio'n gywir. Mae gennym Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd, ac rydym hefyd yn cefnogi awdurdodau lleol yn eu gwaith. Mae hyn yn hanfodol i sicrhau bod y cyhoedd, a'n partneriaid masnachu rhyngwladol, yn hyderus am fwyd y DU. Mae dilysrwydd bwyd hefyd yn chwarae rhan bwysig mewn diogelwch bwyd.

## Mae bwyd yn iachach ac yn fwy cynaliadwy

Fel yr unig adran sy'n canolbwyntio'n gyfan gwbl ar fwyd, byddwn yn defnyddio ein sgiliau a'n harbenigedd, gan gefnogi partneriaid yn y llywodraeth ac eraill yn y system fwyd ehangach sy'n arwain ar iechyd a chynaliadwyedd.

## Ein strategaeth

Mae'r sector bwyd yn datblygu'n gyflym, a hynny oherwydd technolegau newydd a modelau busnes newidiol, fel prynu bwyd trwy lwyfannau ar-lein, sef maes sy'n tyfu'n gyflym iawn. Mae'r sector bellach yn delio ag effaith prisiau bwyd ac ynni uwch, prinder llafur, ac effeithiau costau byw wrth i ddefnyddwyr a busnesau geisio torri costau a'u defnydd o ynni.

Mae ein strategaeth yn nodi sut y byddwn yn parhau i sicrhau bod gan bobl fwyd y gallant ymddiried ynddo yn yr amgylchedd newidiol hwn. Rydym yn cyflawni hyn drwy ein rolau amrywiol, a ddisgrifir yn yr adran nesaf, a thrwy ein hegwyddorion arweiniol ar gyfer sut y byddwn yn gweithredu, fel cefnogi arloesedd, bod yn seiliedig ar risg ac yn gymesur, a'i gwneud yn haws i fusnesau gwneud y peth iawn i ddefnyddwyr.

Rydym yn chwilio am ffyrdd o ddefnyddio data a thechnoleg newydd i wneud rheoleiddio yn fwy cymesur, ac yn gweithio gyda busnesau dylanwadol i ysgogi newid.

**Darllenwch ein strategaeth**[4]

[4] www.food.gov.uk/cy/strategaeth

# Ein gwaith:

## Rydym yn gynhyrchydd tystiolaeth

Mae gennym enw da yn fyd-eang am wyddoniaeth ac ymchwil. Mae hyn yn cynnwys cynnal asesiadau cyflym o risgiau i ddiogelwch defnyddwyr, datblygu technegau gwyliadwriaeth newydd i nodi risgiau'n gyflymach, a deall gwerthoedd, agweddau ac ymddygiad defnyddwyr. Rydym yn cyhoeddi ein tystiolaeth yn unol â'n hymrwymiad i fod yn dryloyw. Mae hyn yn golygu ei bod ar gael am ddim i eraill sy'n gwneud polisïau a phenderfyniadau, i lywio canllawiau i fusnesau, ac fel y gall y cyhoedd ddeall y sail ar gyfer ein penderfyniadau. Rydym hefyd yn gyfrifol am ddynodi'r labordai swyddogol sy'n cynnal dadansoddiadau cemegol a chyfansoddol pwysig ar samplau bwyd a bwyd anifeiliaid a gymerir gan awdurdodau lleol neu awdurdodau iechyd porthladdoedd.



# Rydym yn wneuthurwr polisi

Rydym yn cynghori gweinidogion ar ddiogelwch bwyd, dilysrwydd bwyd a buddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae'r meysydd polisi rydym yn cynghori arnynt yn wahanol ym mhob gwlad (gweler yr adran berthnasol isod). Mae ein cyngor yn seiliedig ar wyddoniaeth a thystiolaeth.

Rydym yn cefnogi gwaith y llywodraeth ar gyfleoedd masnach i'r DU, gan ddarparu asesiadau risg o wledydd sydd am ddechrau mewnforio i'r DU a dangos ein trefniadau diogelwch bwyd ein hunain i wledydd rydym yn allforio iddynt. Rydym yn darparu cyngor polisi i gefnogi'r gwaith o gynnal rheolaethau swyddogol effeithiol sy'n seiliedig ar risg – sef arolygiadau, archwiliadau, gwyliadwriaeth a gwaith samplu mewn busnesau bwyd.

Rydym yn darparu cyngor polisi i weinidogion ar ein cyfundrefnau statudol ar gyfer awdurdodiadau cyn rhoi cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid newydd ar y farchnad, gan sicrhau eu bod yn parhau i gadw pobl yn ddiogel yn bennaf oll, wrth ddarparu gwasanaeth effeithiol i fusnesau a dileu rhwystrau i arloesi. Rydym ni, a Safonau Bwyd yr Alban, yn cydweithio trwy 'ddulliau gweithio pedair gwlad' i ddatblygu polisïau bwyd ar gyfer y DU gyfan, gan ystyried amgylchiadau penodol Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon, a'r Alban. Rydym yn cyfrannu at waith trawslywodraethol i ddatblygu a gweithredu polisïau ar reolaethau mewnforio ac yn sicrhau y caiff safonau bwyd a bwyd anifeiliaid eu gwella neu eu cynnal.

# Rydym yn rheoleiddiwr

Rydym yn rheoleiddio'r system fwyd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Rydym yn cynnal rheolaethau uniongyrchol yn y meysydd cynhyrchu cig, llaeth a gwin, ac yn goruchwylio'r gwaith o gynnal rheolaethau mewn rhannau eraill o'r system fwyd. Mae staff yr ASB a Phartneriaid Darparu Gwasanaeth yn arolygu ac yn archwilio busnesau. Mae milfeddygon swyddogol yn hwyluso masnach trwy ddarparu Ardystiadau Iechyd Ategol. Rydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol sy'n arolygu busnesau bwyd – gan osod y fframwaith arolygu, a darparu cyngor a chanllawiau, a monitro eu perfformiad. Rydym yn gwneud yr un peth ar gyfer awdurdodau iechyd porthladdoedd, sy'n arolygu mewnforion bwyd. Rydym yn diwygio'r fframwaith rheoleiddio diogelwch bwyd i roi sicrwydd mwy cymesur sy'n seiliedig ar risg.

Rydym yn asesu pa fathau o gynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid newydd y dylid eu hawdurdodi i'w gwerthu ar y farchnad ym Mhrydain Fawr ac yn cynghori ar oblygiadau newidiadau rheoleiddiol yng Ngogledd Iwerddon. Rydym ni, ar y cyd â Safonau Bwyd yr Alban, yn cynnal dadansoddiadau risg ar y cynhyrchion rheoleiddiedig hyn ac yn darparu cyngor i weinidogion, a fydd yn penderfynu a ellir rhoi'r cynnyrch ar y farchnad yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Rydym yn gweithredu'r gyfundrefn reoleiddio newydd ar gyfer bwyd a bwyd anifeiliaid sydd wedi'i fridio'n fanwl[5]. Bydd ein blwch tywod rheoeiddiol arloesol ar gyfer cynhyrchion a wneir drwy feithrin celloedd (CCPs)[6] yn galluogi arloesi diogel ac yn golygu y gallwn gadw i fyny gyda'r technolegau newydd a ddefnyddir gan y diwydiant bwyd er mwyn darparu dewis ehangach o fwydydd diogel i ddefnyddwyr.

Rydym yn darparu canllawiau i fusnesau bwyd, gan gynnwys systemau rheoli diogelwch bwyd a hyfforddiant arlein. Rydym yn defnyddio gwyliadwriaeth i nodi risgiau i ddefnyddwyr ac i nodi digwyddiadau diogelwch bwyd posib, ac rydym yn ymateb i'r rhain pan fyddant yn codi. Mae hyn yn cynnwys gweithio gydag Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU, gweithgynhyrchwyr, manwerthwyr ac awdurdodau lleol i olrhain ffynonellau brigiadau (outbreaks) o glefydau a gludir gan fwyd a chydlynu camau gweithredu, fel galw cynnyrch yn ôl i ddiogelu defnyddwyr a busnesau. Mae ein Huned Genedlaethol Troseddau Bwyd yn gweithio i fynd i'r afael â thwyll difrifol a throseddu cysylltiedig mewn cadwyni cyflenwi bwyd.

**[5] Mae bridio manwl yn disgrifio ystod o dechnegau genetig a all newid DNA planhigion (ac anifeiliaid) mewn ffordd gyflymach a mwy manwl, gan arwain at ganlyniadau y gellid bod wedi'u cyflawni gan ddefnyddio dulliau traddodiadol.**
**[6] Mae CCPs yn cynnwys amrywiaeth o fwydydd y gellir eu gwneud gan ddefnyddio proses gynhyrchu heb ladd neu heb arferion ffermio ac amaethyddol traddodiadol. Mae celloedd a gaiff eu hynysu o anifeiliaid neu blanhigion, gan gynnwys celloedd o gig, bwyd môr, braster ac offal, neu wyau, yn tyfu mewn amgylchedd rheoledig, ac yna'n cael eu cynaeafu i wneud cynnyrch bwyd terfynol.**

# Rydym yn gorff gwarchod

Rydym yn adolygu ac yn adrodd ar safonau bwyd a buddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd, gan ddefnyddio gwyliadwriaeth, sganio'r gorwel a chudd-wybodaeth. Rydym ni, ar y cyd â Safonau Bwyd yr Alban, yn cyhoeddi adolygiad blynyddol o safonau bwyd ledled y DU[7].

Rydym yn siarad yn gyhoeddus am feysydd o ddiddordeb i ddefnyddwyr, pan fydd gennym dystiolaeth neu arbenigedd a allai wneud gwahaniaeth. Mae hyn yn cynnwys cynghori gweinidogion er mwyn sicrhau bod Cytundebau Masnach Rydd yn cynnal mesurau diogelu statudol ar gyfer iechyd pobl, a hynny gan gefnogi adroddiadau a gaiff eu llunio ar gyfer Senedd y DU o dan Adran 42 o Ddeddf Amaethyddiaeth 2020. Rydym hefyd yn rhoi cyngor i weinidogion ar geisiadau i gael mynediad i'n marchnadoedd ar gyfer nwyddau penodol.

[7] www.food.gov.uk/cy/amdanom-ni/adroddiadau-a-chyfrifon-blynyddol-gan-gynnwys-ein-bwyd

# Rydym yn gynullydd ac yn gydweithredwr

Mae bwyd yn fater datganoledig. Rydym yn gweithio'n agos gydag adrannau eraill yn Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon a Safonau Bwyd yr Alban i gyflawni blaenoriaethau a rennir a sicrhau bod buddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd yn cael eu cynrychioli.

Rydym wedi ymrwymo i weithio ar draws y llywodraeth i geisio consensws o ran y cyngor y byddwn yn ei roi i weinidogion ym mhob gwlad. Mae hyn yn cynnwys cymryd rhan mewn Fframweithiau Cyffredin. Mae'r rhain yn cynnwys prosesau trawslywodraethol sy'n sicrhau bod dull cyffredin[8] yn cael ei fabwysiadu mewn meysydd polisi datganoledig.

Rydym hefyd yn dod â phartïon eraill ynghyd i fynd i'r afael â phroblemau yn y system fwyd, gan weithio gyda'r byd academaidd, y gymdeithas sifil a busnesau i gefnogi nodau ac amcanion a rennir. Rydym yn rhannu mewnwelediadau a thystiolaeth ar fuddiannau dinasyddion i helpu i lywio ffyrdd o feddwl ar draws y llywodraeth.

Gweler yr adran ar Bartneriaethau am fwy o wybodaeth am sut rydym yn gweithio gydag eraill.

[8] www.food.gov.uk/cy/amdanom-ni/gweithio-ar-draws-y-pedair-gwlad

## Digwyddiadau

Bob blwyddyn, rydym yn ymchwilio i oddeutu

**2,000**

o ddigwyddiadau bwyd, bwyd anifeiliaid a halogiad amgylcheddol, gan helpu i ddiogelu defnyddwyr trwy dynnu cynhyrchion o'r farchnad neu roi gwybod am y risgiau. Mae tri phrif fath o beryglon diogelwch bwyd a allai wneud bwyd yn anniogel neu'n anaddas i'w fwyta: halogiad microbiolegol (bacteria niweidiol), halogiad cemegol a gwrthrychau ffisegol mewn bwyd.




## Bwyd wedi'i fewnforio

Mae tua

**42%***

o'r bwyd a fwyteir yn y DU yn cael ei fewnforio.



## Cydymffurfiaeth busnesau bwyd



Yn 2024/25, roedd gan

**98.9%**

o fusnesau bwyd cig sgôr o 'Da' neu 'Boddhaol ar y cyfan' ar gyfer cydymffurfiaeth â rheoliadau diogelwch bwyd, hylendid bwyd a lles anifeiliaid.

## Safonau hylendid

Ym mis Mawrth 2025, roedd gan

**97%**

o fusnesau sgôr o 3 neu uwch. Roedd gan

**76.8%**

o fusnesau y sgôr uchaf o 5.

* Ffynhonnell: Defra Food statistics in your pocket
www.gov.uk/government/statistics/food-statistics-pocketbook

# Ein pobl

**Mae mwy na 1,500 o bobl yn gweithio i ni i sicrhau bod bwyd yn ddiogel a'i fod yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label. Gyda'n gilydd, rydym hefyd yn chwarae ein rhan i helpu i wneud bwyd yn iachach ac yn fwy cynaliadwy i bawb.**

Mae ein pobl yn cynnwys gwyddonwyr, ystadegwyr, dadansoddwyr, arolygwyr, arbenigwyr gorfodi, gweithwyr polisi proffesiynol, economegwyr, milfeddygon ac arolygwyr rheng flaen, sy'n gweithio gyda'n partneriaid cyflenwi i arolygu lladd-dai a safleoedd cynhyrchu cynradd eraill.

Fel adran anweinidogol y llywodraeth, rydym yn cael ein llywodraethu gan Fwrdd yn hytrach na gweinidogion[9]. Mae ein Bwrdd[10] yn pennu cyfeiriad strategol cyffredinol ein sefydliad. Mae ein Prif Weithredwr[11] yn gyfrifol am sicrhau bod gweithgareddau'r ASB yn cael eu cyflawni'n effeithlon ac effeithiol. Mae'r Prif Weithredwr yn atebol i'r Bwrdd am arfer pwerau. Mae'r Prif Weithredwr yn brif swyddog cyfrifyddu, ac felly'n uniongyrchol atebol i'r Senedd a San Steffan am werth am arian ar gyfer gweithgareddau'r ASB.

Mae Pwyllgorau Cynghori ar Fwyd Cymru a Gogledd Iwerddon yn darparu cyngor a mewnwelediad i'r Bwrdd ynghylch diogelwch a safonau bwyd yn eu gwledydd nhw.

Mae'r Bwrdd hefyd yn cael ei arwain gan Bwyllgorau Cynghori Gwyddonol annibynnol, sy'n dibynnu ar safbwyntiau mwy na 150 o arbenigwyr, gan sicrhau bod ein canllawiau bob amser yn seiliedig ar y wyddoniaeth a'r dystiolaeth orau a mwyaf diweddar.



[9] Mae ein Bwrdd yn atebol i Senedd Cymru drwy'r Gweinidog Iechyd, i Senedd San Steffan drwy'r Ysgrifenydd Gwladol dros Iechyd ac i Gynulliad Gogledd Iwerddon drwy'r Gweinidog Iechyd.

[10] www.food.gov.uk/cy/amdanom-ni/cyfarfodydd-bwrdd-yr-asb

[11] www.food.gov.uk/cy/amdanom-ni/y-tim-arwain

# Ein dull o weithio

Rydym wedi datblygu saith prif egwyddor sy’n nodi sut y byddwn yn cyflawni ein strategaeth.

Mae **91%*** o bobl wedi clywed am yr ASB

O’r rheiny, mae **69*** yn ymddiried ynom i wneud ein gwaith

Ein prif egwyddorion:

1. Ni yw’r llais dibynadwy ar safonau bwyd, gan ddiogelu buddiannau defnyddwyr
2. Rydym yn cael ein harwain gan wyddoniaeth a thystiolaeth
3. Rydym yn agored ac yn dryloyw
4. Rydym yn gweithio gydag eraill, a thrwy eraill
5. Rydym yn ei gwneud yn haws i fusnesau gyflawni eu rhwymedigaethau a gwneud y peth iawn i ddefnyddwyr
6. Rydym yn seiliedig ar risg ac yn gymesur
7. Rydym yn arloesol

Mwy o wybodaeth am ein hegwyddorion[12]

* Ffynhonnell: Bwyd a Chi 2 (cyhoeddwyd Mawrth 2025): www.food.gov.uk/cy/research/bwyd-a-chi-2

[12] www.food.gov.uk/cy/amdanom-ni/ein-prif-egwyddorion

# Y cyd-destun rydym yn gweithio ynddo

## Sector bwyd y DU

| Nifer | Gweithgaredd |
|---|---|
| £146.7 biliwn | Cyfraniad y sector bwyd-amaeth i'r Gwerth Ychwanegol Gros cenedlaethol yn 2022 (DU) |
| 4.2 miliwn o bobl | Wedi'u cyflogi yn y sector bwyd-amaeth yn 2022 (Prydain Fawr) |
| £245.5 biliwn | Gwariant defnyddwyr ar fwyd a diod yn 2023 (DU) |
| £24.4 biliwn | Allforion bwyd, bwyd anifeiliaid a diodydd yn 2023 (DU) |

Ffynhonnell: Defra Food statistics in your pocket
www.gov.uk/government/statistics/food-statistics-pocketbook

## 600,000 o fusnesau bwyd cofrestredig yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon

| Nifer | Math o fusnes |
|---|---|
| 4,000+ | o gynhyrchwyr cynradd |
| 17,000 | o weithgynhyrchwyr a phacwyr |
| 1,000+ | o fewnforwyr/allforwyr |
| 9,000+ | o ddosbarthwyr a chludwyr |
| 121,000+ | o fanwerthwyr |
| 407,000+ | o fwytai ac arlwywyr |

Ffynhonnell: Ffigurau blynyddol ar gyfer gwaith gorfodi cyfraith bwyd mewn awdurdodau lleol (2023/24 a 2019/20)
www.food.gov.uk/cy/amdanom-ni/awdurdodau-lleol

# Rydym yn gweithredu yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon

**Mae gennym wahanol gyfrifoldebau polisi ar draws y tair gwlad.**

Safonau Bwyd yr Alban yw adran anweinidogol Llywodraeth yr Alban sy'n gyfrifol am ddiogelwch bwyd, safonau bwyd, maeth, labelu bwyd, rheolaethau swyddogol ar fwyd anifeiliaid ac arolygu cig yn yr Alban.

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn cynrychioli buddiannau llywodraeth y DU mewn fforymau a sefydliadau rhyngwladol, ac yn hyrwyddo diogelwch a hylendid bwyd ar lefel fyd-eang.

## Ein meysydd cyfrifoldeb polisi

**Yng Ngogledd Iwerddon yn unig:**


- safonau maeth a labelu
- iechyd a gwyliadwriaeth deietegol

**Yng Nghymru a Gogledd Iwerddon:**

- safonau cyfansoddiad a labelu bwyd

**Ar draws Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon:**

- diogelwch a hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid
- labelu diogelwch bwyd, gan gynnwys labelu alergenau



### Meysydd cyfrifoldeb polisi eraill:

**Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig:** Labelu bwyd arall (Lloegr) (yn cynnwys safonau cyfansoddiad, gwlad tarddiad)
**Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol:** Safonau maeth, labelu bwyd maeth (Lloegr)
**Llywodraeth Cymru:** Safonau maeth, labelu bwyd maeth (Cymru)

## Cyfrifoldeb busnesau bwyd a bwyd anifeiliaid

O dan **reoliadau bwyd a bwyd anifeiliaid y DU**, cyfrifoldeb busnesau bwyd yw sicrhau bod yr holl fwyd a bwyd anifeiliaid sy'n cael eu rhoi ar y farchnad yn ddiogel, eu bod o'r ansawdd y byddai defnyddwyr yn ei ddisgwyl ac nad ydynt yn cael eu labelu mewn ffordd ffug neu gamarweiniol.

## Pwy sy'n gorfodi rheolaethau bwyd?

### Ar ran yr ASB*

Mae **Arolygwyr Hylendid Cig** a Milfeddygon Swyddogol yn cynnal gwiriadau hylendid, gwiriadau dogfennol, a gwiriadau ffisegol ac yn cymryd samplau o gynhyrchwyr cig cymeradwy (gan gynnwys lladd-dai a ffatrïoedd torri).

Mae **Milfeddygon Cymwys** yn cynnal gwiriadau ar gynhyrchion anifeiliaid ac yn cynnal gwiriadau lles anifeiliaid.

Mae **Arolygwyr Safonau Gwin** yn cynnal gwiriadau ar ddilysrwydd, ansawdd, dulliau labelu ac olrheiniadwyedd gwinoedd, ac yn rhoi arweiniad a chymorth i'r rheiny sy'n tyfu, cynhyrchu ac yn masnachu gwin.

Mae **Arolygwyr Hylendid Llaeth** yn arolygu safleoedd cynhyrchu cynradd, yn gwirio dulliau cynhyrchu llaeth amrwd hylifol, llaeth buwch i'w yfed yn amrwd a llaeth yfed amrwd, ac yn hyrwyddo'r arferion hylendid gorau ar yr un pryd.

* Yr Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (DAERA) sy'n gyfrifol am gynnal rheolaethau swyddogol yn sefydliadau cymeradwy yr ASB yng Ngogledd Iwerddon ar ran yr ASB.

### Cynnal rheolaethau ar fwyd a fewnforir

O ran cynnal rheolaethau ar fwyd a fewnforir, awdurdodau lleol a'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) sy'n gyfrifol yng Nghymru, awdurdodau lleol ac awdurdodau iechyd phorthladdoedd sy'n gyfrifol yn Lloegr, ac awdurdodau lleol a DAERA sy'n gyfrifol yng Ngogledd Iwerddon.

Mae **Swyddogion Iechyd Porthladdoedd** yn cynnal gwiriadau dogfennol ar sail risg, gwiriadau adnabod, gwiriadau corfforol, ac yn cymryd samplau o fewnforion bwyd.

Mae **Milfeddygon Swyddogol** ac **Arolygwyr Pysgod Swyddogol** yn cynnal gwiriadau ar gynhyrchion anifeiliaid.

### Gwaith gweithredu awdurdodau lleol

Mae **Swyddogion Diogelwch Bwyd** yn cynnal rheolaethau swyddogol ar ddiogelwch a hylendid bwyd. Maent yn arolygu safleoedd i sicrhau bod bwyd yn cael ei storio a'i baratoi'n ddiogel.

Mae **Swyddogion Safonau Bwyd** yn sicrhau bod bwyd yn bodloni safonau diogelwch, safonau cyfansoddiad a safonau labelu maeth (er enghraifft, labelu alergenau, dyddiadau defnyddio erbyn, gwybodaeth am faeth a chyfansoddiad).

Ymhlith y busnesau bwyd y mae awdurdodau lleol yn eu rheoleiddio mae cynhyrchwyr bwyd, proseswyr bwyd, sefydliadau arlwyo, busnesau tecawê a dosbarthu bwyd, manwerthwyr a sefydliadau llaeth, cig a physgod cymeradwy.

Cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw cynnal rheolaethau ar **fwyd anifeiliaid** yng Nghymru ac yn Lloegr, a DAERA sy'n gyfrifol yng Ngogledd Iwerddon.

Mae'r ASB ac awdurdodau lleol yn gweithio ar y cyd i gynnal rheolaethau swyddogol ar **bysgod cregyn**.

# Partneriaethau

**Rydym yn ymdrechu i feithrin partneriaethau strategol a chydweithredol yn y DU a thramor.**

Caiff ein Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd ei gynnal mewn partneriaeth â thua 330 o awdurdodau lleol ar draws Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Maent yn cynnal arolygiadau hylendid mewn tua 600,000 o safleoedd – gan hybu dewis defnyddwyr a gwella safonau hylendid mewn perthynas â bwyd.


Mae partneriaethau gwyddonol ar draws y llywodraeth a chyda'r byd academaidd yn hanfodol er mwyn diwallu ein hanghenion o ran gwyddoniaeth a thystiolaeth. Gwnaethom arwain ar y rhaglen Cadw Gwyliadwriaeth ar Bathogenau mewn Amaethyddiaeth, Bwyd a'r Amgylchedd (PATH-SAFE), sef rhaglen drawslywodraethol pedair blynedd ledled y DU a fanteisiodd ar gyllid o £24.4 miliwn gan Drysorlys EM, i archwilio dulliau newydd ar gyfer gwella prosesau canfod ac olrhain pathogenau a gludir gan fwyd ac ymwrthedd gwrthficrobaidd yn y system bwyd-amaeth gyfan.

Mae partneriaethau cadarn hefyd yn ein helpu i ddeall a chyrraedd y defnyddwyr rydym yn ceisio eu diogelu. Er enghraifft, rydym yn gweithio gyda llwyfannau ar-lein fel Deliveroo, Just Eat ac Uber Eats i wella tryloywder gwybodaeth am hylendid busnesau bwyd, gan alluogi defnyddwyr i ystyried diogelwch bwyd wrth archebu bwyd ar-lein. Mae cydweithio ag elusennau fel Allergy UK ac Anaphylaxis UK yn ein helpu i ddeall a chefnogi pobl sy'n byw gyda gorsensitifrwydd i fwyd.

Rydym yn gweithio gydag adrannau'r llywodraeth ar brosiectau a all gefnogi diogelwch, dilysrwydd, iechyd neu gynaliadwyedd bwyd. Er enghraifft, yn Lloegr, rydym yn cydweithio â'r Adran Addysg, y Swyddfa ar gyfer Gwella Iechyd a Gwahaniaethau, ac awdurdodau lleol ar gynllun peilot sy'n dangos pa mor ddilys yw hi i swyddogion diogelwch bwyd awdurdodau lleol gynnal gwiriadau ar safonau bwyd mewn ysgolion, ochr yn ochr ag arolygwyr hylendid bwyd. Yng Ngogledd Iwerddon, lle rydym yn gyfrifol am safonau maeth, rydym wedi gweithio gydag adrannau eraill y llywodraeth, asiantaethau iechyd, y diwydiant bwyd ac eraill i lunio canllaw ar gyfer peiriannau gwerthu byrbrydau iachach a mwy cynaliadwy, yr ydym yn ei roi ar waith ochr yn ochr â'n safonau maeth ar gyfer arlwyo mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol a lleoliadau ehangach yn y sector cyhoeddus.

Rydym yn rhan o fforymau rhyngwladol i ddiogelu bwyd sy'n dod i mewn i'r DU ac i fod ar flaen y gad o ran datblygiadau rhyngwladol ym maesdiogelwch bwyd. Darllenwch am ein [gwaith gyda phartneriaid][13] i ddylanwadu ar safonau diogelwch bwyd rhyngwladol.

[13] www.food.gov.uk/cy/amdanom-ni/gwaith-rhyngwladol-yr-asiantaeth



# Yr ASB: Diogelu eich plât ers 2000

**2000**

### Sefydlu'r ASB ac ymrwymo i fod yn agored ac yn dryloyw

Sefydlwyd yr ASB fel adran annibynnol o'r llywodraeth a oedd yn gweithio ar draws Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban i ddiogelu iechyd y cyhoedd a buddiannau ehangach defnyddwyr mewn perthynas â bwyd. Cawsom ein sefydlu ar ôl sawl brigiad o achosion proffil uchel a marwolaethau yn sgil salwch a gludir gan fwyd.

Wrth ei sefydlu, gwnaethom ymrwymo i weithredu'n agored ac yn dryloyw. Mae ein hamcanion statudol yn cynnwys ymgynghori ar ein gweithgareddau, a sicrhau bod ein penderfyniadau, a'r wybodaeth y maent yn seiliedig arni, ar gael i'r cyhoedd. Rydym wedi cynnal ein cyfarfodydd Bwrdd yn gyhoeddus o'r dechrau – gan dorri tir newydd ar y pryd, a hyd at heddiw.

**2005**


**600,000+**

### Lansio 'Bwyd Mwy Diogel, Busnes Gwell' (SFBB) i wneud hylendid bwyd yn haws i fusnesau bach

Yn 2005, gwnaethom lansio SFBB i helpu busnesau bach a microfusnesau i fabwysiadu gweithdrefnau diogelwch bwyd da. Cafodd ei ddylunio i ddiwallu anghenion gwahanol fathau o fusnesau – gan gynnwys cwmnïau arlwyo, cwmnïau manwerthu bach, bwytai a safleoedd tecawê. Mae'r canllawiau hyn yn parhau i fod yn rhan greiddiol o'n harlwy, ac mae gan y rhan fwyaf o fwytai gopi wedi'i argraffu yn eu ceginau. Yn 2024, roedd mwy na 600,000 o ymweliadau â thudalennau SFBB ar wefan yr ASB a chafodd y canllawiau PDF eu lawrlwytho bron i 550,000 o weithiau.

Yng Ngogledd Iwerddon, mae ein canllaw 'Safe Catering' yn cynnig dull hwylus i arlwywyr a'r rhai sy'n trin bwyd reoli diogelwch bwyd, hyfforddi staff a bodloni eu rhwymedigaethau cyfreithiol. Cafodd y canllaw ei ddatblygu ar y cyd ag Awdurdod Diogelwch Bwyd Iwerddon, ac mae'n diwallu anghenion gwahanol fathau o fusnesau. Mae ar gael yn rhad ac am ddim ar ein gwefan ac mae gan y rhan fwyaf o fusnesau arlwyo yng Ngogledd Iwerddon gopi caled ohono.

## 2007





### Cyflwyno labelu maeth ar flaen y pecyn

Yn 2010, cafodd ein cyfrifoldebau am safonau maeth a labelu bwyd maeth yng Nghymru eu trosglwyddo i Lywodraeth Cymru. Yn yr un modd, trosglwyddwyd y cyfrifoldebau hyn yn Lloegr i'r Adran Iechyd. Cyn hyn, gwnaethom arwain ar y gwaith cynnar i ddatblygu labeli maeth ar flaen pecynnau bwyd sydd wedi'i becynnu ymlaen llaw. Mae'r label yn dangos a yw bwyd yn cynnwys lefelau uchel (coch), canolig (oren) neu isel (gwyrdd) o fraster, braster dirlawn, siwgrau a halen, yn ogystal â chyfanswm yr egni (caloriau a kilojoules).

Dyluniwyd y system labelu, sydd bellach yn cael ei defnyddio'n helaeth, i annog defnyddwyr i chwilio am fwyd iachach ac i gymell busnesau i gynhyrchu bwyd o'r fath.

Rydym yn parhau i adolygu'r cynllun gydag adrannau eraill y llywodraeth ar draws y DU, ac yng Ngogledd Iwerddon, rydym yn hyrwyddo'r cynllun drwy ein gwefan, ymgyrchoedd defnyddwyr, ac adnoddau am ddim i ysgolion a grwpiau cymunedol.

## 2010





### Gwella safonau hylendid bwyd mewn busnesau bwyd

Yn 2010, gwnaethom lansio'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd gwirfoddol i roi gwybodaeth i'r cyhoedd am y safonau hylendid mewn busnesau bwyd.

Rydym yn gweithredu'r cynllun mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol. Maent yn rhoi sgôr hylendid i fusnesau, o 0 ar y gwaelod i 5 ar y brig. Daeth y cynllun yn statudol yng Nghymru ym mis Tachwedd 2013 ac ym mis Hydref 2016 yng Ngogledd Iwerddon gan ei gwneud yn orfodol i fusnesau arddangos eu sgôr.

Mae safonau hylendid wedi gwella – cododd nifer y busnesau a gafodd y sgôr uchaf o 5 o 54% yn 2013 i 76.8% yn 2025 (Mawrth). Mae ymchwil yn dangos bod busnesau sydd â sgôr uwch yn llai tebygol o fod yn gyfrifol am achosion o salwch a gludir gan fwyd.

## 2013




### Argyfwng cig ceffyl

Roedd yr argyfwng cig ceffyl yn sgandal bwyd a siglodd hyder defnyddwyr mewn bwyd yn y DU, gan gostio cannoedd o filiynau o bunnoedd i'r diwydiant. Darganfuwyd cig ceffyl mewn cynhyrchion a oedd wedi'u labelu fel cig eidion, a arweiniodd at alw miliynau o gynhyrchion yn ôl ledled Ewrop.

Rydym bellach yn gweithio'n fwy effeithiol gyda'r diwydiant, ac mae'r diwydiant yn llawer gwell am graffu'n fanwl ar eu cadwyni cyflenwi o'r dechrau i'r diwedd. Mae gwaith samplu gan y diwydiant yn ein galluogi i wneud penderfyniadau mwy gwybodus ar y camau y mae angen i ni eu cymryd i ddiogelu defnyddwyr. Rydym hefyd wedi gwella'r ffordd y mae'r ASB yn casglu cudd-wybodaeth arall, gan ddefnyddio data a dadansoddiadau rhagfynegol i fonitro risgiau.

Yn sgil yr argyfwng, gwnaethom sefydlu'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd (NFCU) i hybu ein harbenigedd ymchwiliol ym maes twyll bwyd. Mae gan yr NFCU bellach dîm o oddeutu 80 o bobl sy'n canolbwyntio ar atal, canfod ac ymchwilio i dwyll difrifol o fewn cadwyni cyflenwi bwyd.

## 2014



### Lleihau gwenwyn campylobacter

Yn 2014, campylobacter oedd achos mwyaf cyffredin gwenwyn bwyd bacteriol yn y DU, gan effeithio ar fwy na chwarter miliwn o bobl bob blwyddyn.

Er mwyn mynd i'r afael â hyn, lansiodd yr Asiantaeth Safonau Bwyd ymgyrch 'Awn i'r Afael â Campylobacter trwy gydweithio' (ACT). Roedd hyn yn cynnwys gweithio gyda ffermwyr, lladd-dai a manwerthwyr i leihau presenoldeb campylobacter a'r posibilrwydd o groeshalogi, ac addysgu defnyddwyr ac arlwywyr ar arferion hylendid da.

2018

## Treialu'r defnydd o dechnoleg blockchain fel adnodd rheoleiddiol i sicrhau a gwirio cydymffurfiaeth yn y gadwyn fwyd

Yn 2018, llwyddon ni i gwblhau cynllun peilot gan ddefnyddio technoleg blockchain mewn lladd-dy gwartheg. Hwn oedd y tro cyntaf erioed i blockchain gael ei ddefnyddio fel adnodd rheoleiddiol i sicrhau a dilysu cydymffurfiaeth yn y gadwyn fwyd. Mae blockchain yn cymryd cofnodion o bob cam ar hyd y gadwyn gyflenwi – o'r anifail yn cyrraedd y lladd-dy, i'r cig wedi'i becynnu – ac yn eu rhoi mewn bloc. Bydd pob bloc yn 'gadwyn' i'r bloc nesaf, gan ddefnyddio llofnod wedi'i amgryptio. Mae hyn yn caniatáu i'r cofnod gael ei rannu a'i wirio gan unrhyw un sydd â chaniatâd (o ffermwyr i ladd-dai), yn hytrach na chael un system ganolog wedi'i rheoli gan un sefydliad.

Gallai blockchain gynyddu tryloywder y gadwyn gyflenwi, gan fod modd rhannu gwybodaeth am anifail penodol yn hawdd ar draws y gadwyn. Nid oes modd amharu ar y system, gan ei bod yn cynnwys sawl copi o ddata. Mae'n gwella'r gallu i olrhain, gan fod nodi taith cynnyrch yn helpu i sicrhau ansawdd. Mae'n arbed amser, gan fod blockchain yn gwella gweithrediadau trwy leihau unrhyw weithgareddau diangen, fel dyblygu data.

2019

## Gwella ansawdd bywyd y rheiny sy'n byw gyda gorsensitifrwydd i fwyd

Yn 2019, cynhaliodd y llywodraeth Adolygiad o Labelu Alergenau yn dilyn marwolaeth Natasha Ednan-Laperouse. Bu farw Natasha o adwaith alergaidd i sesame mewn baguette, nad oedd wedi'i labelu â gwybodaeth am alergenau.

Argymhellodd Bwrdd yr ASB y dylid labelu cynhwysion ac alergenau yn llawn ar fwyd sydd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol (PPDS) – sef bwyd wedi'i becynnu ar y safle cyn i gwsmer ei archebu, fel rhai mathau o salad neu frechdanau. Cytunodd y llywodraeth â'r argymhelliad hwn. Cyflwynwyd gofyniad cyfreithiol newydd a ddaeth i rym o fis Hydref 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i fusnesau ddarparu rhestr gynhwysion lawn ar fwyd PPDS gan bwysleisio'r alergenau, a rhoi'r gallu i bobl sydd â gorsensitifrwydd i fwyd wneud dewisiadau diogel wrth brynu bwyd.

2020 /21

## Cefnogi busnesau trwy newid: sicrhau bod bwyd yn parhau i fod yn ddiogel ac yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label

### Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Cyn ymadawiad y DU â'r UE, gwnaethom fabwysiadu cyfrifoldebau newydd gan gymryd cyfrifoldeb am swyddogaethau a arferai gael eu cynnal gan yr UE. Erbyn hyn, rydym yn darparu cyngor i weinidogion, sy'n penderfynu a all mathau newydd o fwyd gael eu rhoi ar y farchnad, gosod y rheolau ar gyfer gwiriadau mewnforio ar fwyd nad yw'n dod o anifeiliaid, a mwy. Rydym yn defnyddio systemau modelu rhagfynegol newydd, gan ddefnyddio ffynonellau data agored byd-eang i bennu'r risg i'r DU.

### Pandemig COVID-19

Roedd ein hasesiadau risg ar COVID-19 mewn bwyd yn allweddol wrth lywio canllawiau ar gyfer busnesau bwyd a defnyddwyr. Gwnaethom gefnogi gweithredwyr busnesau bwyd wrth adfer ar ôl y cyfnod clo a helpu i'w gwneud yn syml iddynt weithredu'n ddiogel (parhad drosodd).

Yn 2021, rhoddwyd ein cynllun adfer ar waith i helpu i roi awdurdodau lleol yn ôl ar y trywydd iawn a chlirio'r ôl-groniad o arolygiadau bwyd a gododd wrth i dimau lleol dargedu eu hadnoddau'n llwyddiannus at y busnesau hynny a oedd yn peri'r risg uchaf wrth frwydro yn erbyn COVID-19.

Yn ôl ein gwasanaeth cofrestru digidol, mae 37% o fentrau newydd a gofrestrwyd ers dechrau'r pandemig (Mawrth 2020) yn cael eu cynnal o geginau domestig mewn cyfeiriadau preifat. Roedd ein hymgyrch yn 2022 yn annog cymaint o'r busnesau newydd hyn â phosib i gofrestru gyda'u hawdurdod lleol[14].

[14] www.food.gov.uk/cy/news-alerts/news/yr-asb-yn-lansio-ym-gyrch-i-annog-pob-busnes-bwyd-newydd-i-gofrestru-gydau-haw-durdod-lleol

## 2022



### Adolygiad blynyddol o safonau bwyd y DU

Gwnaethom gyhoeddi, ar y cyd â Safonau Bwyd yr Alban, Ein Bwyd: Adolygiad blynyddol o safonau bwyd ledled y DU[15], sef yr adroddiad cynhwysfawr cyntaf o safonau bwyd yn y DU.

Mae'n darparu asesiad sylfaenol o'n safonau bwyd, yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE, ac effaith pandemig COVID-19. Byddwn yn defnyddio'r gyfres hon o adroddiadau i ddarparu asesiad gwrthrychol, wedi'i lywio gan ddata, o ddiogelwch a safonau bwyd dros amser. Rydym wedi ailadrodd yr asesiadau bob blwyddyn.

[15] www.food.gov.uk/cy/amdanom-ni/adroddiadau-a-chyfrifon-blynyddol-gan-gynnwys-ein-bwyd

## 2025

### Ymrwymiad  i arloesi a rheoleiddio cymesur sy'n seiliedig ar risg

Gwnaethom ddatblygu fframwaith cymesur ar gyfer rheoleiddio organebau wedi'u bridio'n fanwl (PBOs). Bydd y fframwaith yn sail ar gyfer awdurdodi PBOs a'u rhoi ar y farchnad fel bwyd a bwyd anifeiliaid yn Lloegr. Gwnaethom hefyd lansio ein rhaglen blwch tywod arloesol ar gyfer rheoleiddio cynhyrchion a wneir drwy feithrin celloedd. Bydd yn hwyluso arloesi diogel ac yn ein galluogi i gadw i fyny â'r technolegau newydd sy'n cael eu defnyddio gan y diwydiant bwyd i roi dewis ehangach o fwydydd diogel i ddefnyddwyr yn y pen draw.

Gwybodaeth am fridio manwl a chynhyrchion a wneir drwy feithrin celloedd: www.food.gov.uk/cy/canllawiau-defnyddiwr/bridio-manwl a www.food.gov.uk/cy/canllawiau-busnes/cynhyrchion-a-wneir-drwy-feithrin-celloedd

# Ein presenoldeb

Rydym yn gweithredu yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

1 **Cyfeiriad ar gyfer gohebiaeth:**
Foss House Kings Pool
1-2 Peasholme Green
Caerefrog
YO1 7PR

2 **Llundain:**
Floor 11
64 Victoria Street
London
SW1E 6QP

3 **Cymru:**
Llawr 4
Adeilad Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

4 **Gogledd Iwerddon:**
10c Clarendon Road
Belfast
BT1 3BG



# Bwyd y gallwch ymddiried ynddo

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i'r Archifau Cenedlaethol[16].

Lle'r ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth am hawlfraint trydydd parti, bydd gofyn i chi geisio caniatâd y rheiny sy'n dal yr hawlfraint dan sylw.

Dylech anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom mewn e-bost i **fsa.communications@food.gov.uk**

[16] www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/

© Hawlfraint y Goron June 2025